# Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth (MoU) rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)

## Cynnwys

Cynnwys ..... 2
Hanes adolygu a chymeradwyo ..... 3
Cyflwyniad ..... 4
Swyddogaethau a chyfrifoldebau ..... 4
Egwyddorion Cydweithredu ..... 6
Cyd-flaenoriaethau a Meysydd Gwaith ..... 6
Llywodraethu ..... 8
Hyd a chyfnod adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ..... 8
Atodiad A – Protocol Gweithio ar y Cyd ..... 9

## Hanes adolygu a chymeradwyo

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dyddiad creu** | 06/11/2019 |
| **Awduron** | AGIC: Joseph Wilton<br>OGCC: Geraint Jones |
| **Dyddiad cytuno** | 12/12/2019 |
| **Cytunwyd yn ffurfiol gan** | AGIC: Kate Chamberlain<br>OGCC: Nick Bennett |
| **Dyddiad adolygu** | 12/12/2020 |

## Cyflwyniad

1. Nod y Memorandwm hwn yw amlinellu'r cytundeb rhwng Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) mewn cysylltiad â chydweithredu a chyfnewid gwybodaeth. Nid yw'r Memorandwm hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y cyrff unigol nac yn ymarfer y swyddogaethau hynny; nac yn diwygio unrhyw bolisiau a chytundebau eraill mewn cysylltiad â'u gweithgareddau. Nid yw'n awgrymu unrhyw drosglwyddo cyfrifoldeb o un i'r llall, nac yn golygu unrhyw rannu cyfrifoldebau statudol ac eithrio ble mae hyn yn cael ei ganiatáu drwy statud.

2. Mae gan OGCC rymoedd statudol yn gysylltiedig ag AGIC yn y modd y mae Llywodraeth Cymru yn awdurdod rhestredig o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Bydd OGCC yn ymateb i unrhyw gŵyn ynghylch AGIC yn unol â'r Ddeddf a'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun. O ganlyniad, nid yw cwynion ynghylch, neu'n cynnwys, gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan AGIC yn cael eu heffeithio gan y Memorandwm hwn a bydd cwynion yn cael eu hymchwilio yn yr un modd â chwynion i'r OGCC ynghylch cyrff eraill.

3. Amcanion y MoU hwn yw:
   - Cefnogi rhannu deallusrwydd a gwybodaeth;
   - Diffinio'r amgylchiadau lle bydd y ddau sefydliad yn cydlafurio;
   - Cyfrannu at wella iechyd a gofal iechyd;
   - Cynnal diogelwch claf a safonau proffesiynol.

4. Nid oes bwriad y dylai'r Memorandwm hwn fod yn rhwymo mewn cyfraith. Fodd bynnag, mae AGIC ac OGCC yn cytuno i ymlynu i'w egwyddorion a chymryd sylw priodol o weithgareddau'i gilydd a gweithio gyda'i gilydd er mwyn hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru

## Swyddogaethau a chyfrifoldebau

### Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

5. AGIC yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni ei swyddogaethau ar ran Gweinidogion yng Nghymru ac, er yn rhan o Lywodraeth Cymru, sefydlwyd protocolau i ddiogelu ei awtonomiaeth weithredol. Mae prif swyddogaethau a chyfrifoldeb AGIC wedi'u tynnu o'r deddfwriaethau canlynol:

   - Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003
   - Deddf Safonau Gofal 2000 (a rheoliadau cysylltiedig);
   - Deddf Iechyd Meddwl 1983  2007, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010;

- Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011;
- Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008;
- Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a Rheoliadau Diwygio 2018.

6. Blaenoriaethau AGIC yw:

- rhoi sicrwydd: darparu barn annibynnol ar ansawdd y gofal;
- hyrwyddo gwelliant: annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da; a
- dylanwadu ar bolisi a safonau: defnyddio'r hyn a ganfyddwn i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

7. Rôl graidd AGIC yw adolygu ac arolygu'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru i roi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill, bod gwasanaethau yn ddiogel ac o ansawdd uchel. Mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllaw a rheoliadau cyhoeddedig. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd AGIC yn ceisio adnabod a chefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau a'r camau sy'n ofynnol i gyflawni hyn. Os oes angen, bydd AGIC yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig lle mae'n ymddangos bod methiannau systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i sicrhau bod gwelliant a dysgu cyflym yn digwydd.

8. Mae AGIC hefyd yn gyfrifol am gofrestru a rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae rheoleiddio sefydliadau o'r fath yn cael ei lywodraethu gan Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

9. Mae gan OGCC swyddogaeth statudol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau cyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Mae'n annibynnol o holl gyrff y llywodraeth. Rôl OGCC yw:

- Ystyried cwynion am gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Darparwyr Gwasanaeth Iechyd Teulu a gwasanaethau gofal cymdeithasol a drefnwyd yn breifat neu ofal cymdeithasol a ariennir, yn ogystal â gwasanaethau gofal lliniarol. O dan amgylchiadau penodol, gall hefyd ystyried gofal iechyd a ariennir yn breifat fel rhan o gŵyn ehangach am ofal y GIG.
- Ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.

- Unioni pethau a rhoi pobl yn ôl yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na baent wedi dioddef anghyfiawnder. Gweithio i sicrhau'r canlyniad mwyaf addas mewn achosion lle bu anghyfiawnder.
- Gweithio ag awdurdodau rhestredig fel bod gwersi o ymchwiliadau yn cael eu dysgu.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus yn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru trwy helpu cyrff i gael pethau yn iawn y tro cyntaf – gweithio i leihau cwynion trwy helpu darparwyr gwasanaeth i wella eu penderfyniadau.
- Ymgymryd ag ymchwiliadau ar ei liwt ei hun pan fydd pryderon difrifol yn cael eu hadnabod, hyd yn oed os nad yw cwyn wedi'i dderbyn.
- Gweithredu Awdurdod Safonau Cwynion sy'n hyrwyddo ymdriniaeth o safon uchel gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru wrth ddelio â chwynion.

## Egwyddorion Cydweithredu

10. Nod trosfwaol y ddau gorff yw cyfrannu tuag at welliant parhaus mewn gwasanaethau gofal iechyd y GIG yng Nghymru er mwyn sicrhau bod safonau perthnasol yn cael eu diwallu. Mae gan y ddau gorff ddiddordeb ym mherfformiad y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru, a gall y ddau gorff fod yn gysylltiedig ag ystyried y gofal a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaeth annibynnol.

11. Lle mae Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod person tramgwyddedig wedi dioddef anghyfiawnder neu galedi o ganlyniad i gŵyn a ystyriwyd ganddo, fel rheol, bydd yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a nodwyd.

12. Bydd OGCC a AGIC yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y sefydliad sydd yn y sefyllfa orau yn arwain unrhyw waith cydweithredol. Pan fydd niwed difrifol yn digwydd, neu pan fydd pryder difrifol yn codi a allai arwain at niwed sylweddol mewn lleoliad gofal iechyd, bydd y ddau sefydliad yn cysylltu â'i gilydd yn gynnar i sicrhau bod un sefydliad arweiniol. Bydd y ddau sefydliad yn anelu at gydgysylltu unrhyw waith dilynol fel bod y bobl a'r sefydliadau cywir yn cael eu cysylltu i gefnogi gwelliant.

13. Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm hwn a'r egwyddorion ar gyfer gweithio ar y cyd. Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr a'r Ombwdsmon fydd sicrhau bod y ddau sefydliad yn deall rôl y llall a'r fframwaith statudol y mae'n ofynnol iddynt weithredu o'i fewn.

## Cyd-flaenoriaethau a Meysydd Gwaith

**Rhannu Gwybodaeth**

14. Bydd y berthynas waith rhwng AGIC ac OGCC yn cael ei nodweddu gan gysylltiad rheolaidd parhaus a chyfnewid gwybodaeth yn agored mewn modd priodol rhyngddyn nhw o fewn paramedrau fframweithiau cyfreithiol y naill a'r llall.

    - Bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal rhwng Prif Weithredwr yr AGIC a'r Ombwdsmon yn ôl yr angen, ond nid yn llai aml na bob 12 mis. Gall y Prif Weithredwr neu'r Ombwdsmon ddirprwyo'r dasg hon i'w Dirprwy neu Gyfarwyddwr, yn y drefn honno.
    - Bydd cyfarfodydd ffurfiol i drafod materion o ddiddordeb cydfuddiannol hefyd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolydd enwebedig o bob sefydliad bob chwe mis. Yn ogystal, bydd staff eraill yn cysylltu ar faterion o'r fath fel maen nhw'n codi a phan maen nhw'n codi.
    - Bydd OGCC hefyd yn enwebu cynrychiolwyr i gymryd rhan yn ffurfiol mewn unrhyw ymarferion rhannu gwybodaeth berthnasol a gynhelir gan AGIC. Mae hyn yn cynnwys Uwchgynadleddau Gofal Iechyd bob dwy flynedd.

15. Yn aml, bydd cydweithredu rhwng AGIC a OGCC yn gofyn am gyfnewid gwybodaeth. Mae’r Protocol Gweithio ar y Cyd (JWP) yn Atodiad A yn nodi’r trefniadau manwl ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda’n gilydd. Bydd Protocol Rhannu Gwybodaeth ar wahân hefyd yn cael ei ystyried os oes angen.

16. Bydd AGIC a OGCC yn cyfeirio pryderon neu achosion o un cyd-lofnodwr i’r cyd-lofnodwr arall lle bo’n briodol gwneud hynny. Er enghraifft, gallai OGCC gyfeirio mater at AGIC pan fydd yn cael gwybodaeth a allai awgrymu bod bygythiad i iechyd a diogelwch un neu fwy o bobl, a bod datgelu’r wybodaeth hon yn cael ei ystyried er budd y cyhoedd. Gall AGIC gyfeirio at OGCC pan fydd cwyn yn cael ei godi mewn cysylltiad â gwasanaeth a ddarperir gan gorff sy’n disgyn o fewn ei awdurdodaeth a bod y gofynion sydd wedi’u gosod yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru 2005 yn cael eu diwallu.

17. Bydd yr holl drefniadau ar gyfer cydlafurio a rhannu gwybodaeth a nodir yn y MoU hwn, yn ogystal ag unrhyw gytundebau atodol, yn ystyried ac yn cydymffurfio â Rheoliad Ddiogelu Data Cyffredinol yr UE, Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sy’n gysylltiedig â’r materion hyn, ac unrhyw godau ymarfer, fframweithiau neu bolisïau eraill gan AGIC a OGCC sy’n gysylltiedig â gwybodaeth bersonol gyfrinachol a materion gwybodaeth, gan gynnwys polisi llywodraethu gwybodaeth OGCC.

18. Mae AGIC yn amodol ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os bydd un sefydliad yn cael cais am wybodaeth sy’n deillio o’r llall, bydd y sefydliad sy’n derbyn yn trafod y cais gyda’r llall cyn ymateb.

**Cyfryngau a Chyhoeddi**

19. Bydd AGIC a OGCC yn ceisio rhoi digon o rybudd a gwybodaeth i'w gilydd am unrhyw gyhoeddiadau cynlluniedig i'r cyhoedd ar faterion sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad, gan gynnwys rhannu cynigion a chyhoeddiadau drafft.

20. Mae AGIC a OGCC yn ymrwymo i weithio gyda'i gilydd, lle bo hynny'n briodol, i greu datganiadau neu gyfathrebiadau ar y cyd yn tynnu sylw at gydweithredu neu weithgareddau sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad.

21. Mae AGIC a OGCC yn parchu cyfrinachedd unrhyw ddogfen sy'n cael ei rannu cyn ei gyhoeddi ac ni fyddant yn gweithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n achosi i gynnwys y dogfennau hynny gael eu cyhoeddi cyn y dyddiad cyhoeddi arfaethedig.

## Llywodraethu

22. Bydd effeithiolrwydd y berthynas waith rhwng AGIC a OGCC yn cael ei ategu gan gyswllt rheolaidd, naill ai'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae'r cyswllt hwn ac unrhyw weithio ar y cyd yn cael ei ddisgrifio yn Atodiad A.

23. Bydd cyfarfod blynyddol, o leiaf, rhwng y Prif Weithredwyr i drafod pryderon strategol sy'n berthnasol i'r ddau sefydliad. Dylid cynnal cyfarfodydd rhwng cydweithwyr perthnasol y ddau sefydliad, pan fo hynny'n briodol; o leiaf ddwywaith y flwyddyn, i drafod gwybodaeth, polisi a materion gweithredol sydd o gyd-ddiddordeb i'r ddau sefydliad. Mae manylion cyswllt y cysylltiadau perthnasol ar lefel weithredol ym mhob sefydliad i'w cael yn Atodiad B.


24. Fel rheol, bydd unrhyw anghytundeb rhwng AGIC a OGCC yn cael ei ddatrys ar lefel gweithio. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid dwyn y mater i sylw rheolwyr y MoU a nodir yn Atodiad B, a all yna fynd ar ei drywydd, fel y bo'n briodol, o fewn y ddau sefydliad i ddod i benderfyniad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr. Dylai'r ddau sefydliad anelu at ddatrys anghytundebau mewn amser rhesymol.

## Hyd a chyfnod adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

25. Mae'r ddau sefydliad wedi adnabod unigolyn sy'n gyfrifol am reoli'r MoU hwn yn Atodiad B. Byddant yn cysylltu â'i gilydd yn ôl yr angen i sicrhau bod y MoU hwn yn gyfredol, yn adnabod unrhyw faterion sy'n ymddangos a datrys unrhyw gwestiynau sy'n codi yn y berthynas waith rhwng y ddau sefydliad.

26. Nid oes terfyn amser ar y MoU hwn a bydd yn parhau i fod yn effeithiol oni bai bod angen newid yr egwyddorion a ddisgrifir neu eu bod nhw'n rhoi'r gorau i fod yn berthnasol. Bydd y MoU yn cael ei adolygu'n flynyddol gan reolwyr y MoU a nodir yn atodiad B, ond gellir ei adolygu ar frys ar unrhyw adeg yn ôl cais y naill sefydliad na'r llall.

**Llofnodwyd**



**Dr Kate Chamberlain**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dyddiad: 05/12/2019



**Nick Bennett**
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: 12/12/2019

## Atodiad A – Protocol Gweithio ar y Cyd

1. Mae'r protocol gweithio ar y cyd hwn yn disgrifio ffyrdd y bydd AGIC a OGCC yn cydweithio mewn meysydd gweithredol allweddol, yn gwneud y gorau o wybodaeth a rhannu gwybodaeth a chynorthwyo'r ddau sefydliad i gyflawni eu hamcanion cyffredin a chanolbwyntio eu gweithgareddau priodol. Mae'n cefnogi creu rhaglenni gwaith sy'n ategu ei gilydd ac sy'n osgoi dyblygu gwaith, gan sicrhau bod prosesau clir ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ar gyfer croesgyfeirio risgiau a phryderon.

### Diben a phwrpas y protocol gweithio ar y cyd

2. Mae'r protocol yn diffinio'r amgylchiadau a'r prosesau y bydd AGIC a OGCC yn cydweithredu â nhw wrth gyflawni eu swyddogaethau priodol.

3. Nid yw'r Protocol hwn yn effeithio ar swyddogaethau statudol ar wahân y naill sefydliad na'r llall, hyd yn oed pan fyddant wedi penderfynu cydweithio. Nid yw ychwaith yn gosod rhwymedigaethau cyfreithlon ychwanegol arnynt nac yn awgrymu trosglwyddo neu rannu swyddogaethau statudol. Wrth weithredu o fewn ei dermau, bydd y ddau sefydliad yn parhau i weithio o fewn fframwaith statudol priodol. Gall y naill sefydliad neu'r llall wrthod cais i gydweithio ar waith penodol, yn arbennig os ystyrir nad yw er budd gorau'r defnyddwyr gwasanaeth iechyd neu fod modd iddo wrthdaro â swyddogaethau statudol priodol.

### Amcanion penodol

4. Mae'r adrannau canlynol yn ystyried mannau penodol lle mae OGCC a AGIC yn bwriadu gweithio gyda'i gilydd yn weithredol. Ar gyfer pob adran, mae'r amcanion allweddol wedi eu nodi ac mae camau penodol wedi eu hadnabod i helpu cyflawni'r amcanion hynny.

**Rhaglenni gweithio**

5. Ein hamcanion yw:

- hysbysu ein rhaglenni gweithio priodol gyda golwg gyfunol ar y prif risgiau a materion allweddol sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru;
- gwneud y gorau o'r effaith a gawn trwy rannu rhaglenni a chynlluniau strategol i ddefnyddio ein hadnoddau yn effeithiol ac ar y cyd;
- nodi cyfleoedd ar gyfer gwaith ar y cyd a/neu waith cydweithredol yn gynnar a'u cynnwys yn ein rhaglenni gwaith priodol;
- cynnal ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o raglen waith ei gilydd drwy gyswllt anffurfiol.

6. I gyflawni'r amcanion hyn, bydd AGIC a OGCC yn:

- cynnal cyfarfodydd dwyochrog ffurfiol i drafod rhaglenni gwaith cyfredol ac adnabod lle mae gweithio ar y cyd/cydweithredu yn briodol;
- cynnal cyswllt anffurfiol a rheolaidd rhwng cynrychiolwyr AGIC a OGCC fel y nodir yn Atodiad B
- fel mater o drefn, rhannu dogfennau gan ddarparu mwy o wybodaeth am gwmpas a chanolbwynt eu gweithgareddau unigol;
- cytuno ar broses ar gyfer rhannu gwybodaeth ac adrodd ar ganfyddiadau mewn meysydd lle mae ychydig o feysydd diddordeb yn gorgyffwrdd e.e
    - Adroddiadau archwilio AGIC
    - Ymchwiliadau OGCC, Adroddiadau Arbennig ac Adroddiadau ar Liwt ei hun
    - AGIC inspection reports
    - OGCC Investigation, Special and Own Initiative Reports
    - Gwybodaeth arall, fel bo'n briodol
- cyfleu ein rolau gwahanol a'n rolau cyflenwol yn gyhoeddus ac yn rhagweithiol
- hyrwyddo ymwybyddiaeth fewnol o gynnwys rhaglen gwaith y sefydliad arall trwy fecanweithiau priodol megis cyfarfodydd rheoli, mewnrwyd a dolenni gwe.

**Rhannu canfyddiadau**

7. Ein hamcanion yw:

- sicrhau bod gan y ddau sefydliad ymwybyddiaeth gref a dealltwriaeth eglur o allbwn gwaith ei gilydd a'i ddylanwad ac effaith ar raglenni gwaith unigol;
- rannu gwybodaeth yn amserol; ac mewn modd sy'n parchu'r angen am gyfrinachedd lle bo hynny'n briodol;
- defnyddio allbwn ein gwaith unigol i hysbysu asesiad ein gilydd o wasanaethau GIG penodol neu sefydliadau GIG unigol; a
- tynnu ar ganfyddiadau ein gilydd i sicrhau ein bod yn rhoi gwybod ar y cyd i ddinasyddion Cymru am eu gwasanaethau iechyd.

8. I gyflawni'r amcanion hyn, bydd AGIC a OGCC yn:

- lle bo'n briodol, sefydlu trefniadau rhannu gwybodaeth o ran rhaglenni gwaith penodol neu barhaus;
- pan fydd cyd-ddiddordeb, trafod y canfyddiadau sy'n codi o'n gwaith parhaus yn y cyfarfodydd dwyochrog;
- rhannu amlinelliad cynnar a drafftiau terfynol lle mae adroddiadau unigol yn ystyried neu'n cyfeirio yn benodol at waith ei gilydd, neu lle fydd canfyddiadau adroddiad yn cael eu defnyddio i roi gwybod am weithgaredd cyfredol neu barhaus;
- lle bo'n briodol, rhoi mynediad i staff o'r ddau sefydliad at wybodaeth neu dystiolaeth a gasglwyd mewn ymateb i faes o ddiddordeb penodol neu a geir fel mater o drefn gan sefydliadau'r GIG yn rheolaidd; a
- gwneud cyfeiriadau penodol at waith ein gilydd ac adroddiadau cyhoeddedig o fewn cyfathrebu rheolaidd y ddau sefydliad e.e. cylchlythyrau ac ar ein gwefannau priodol.

**Rhannu / croes gyfeirio pryderon a risgiau penodol**

9. Ein hamcanion yw:

- hysbysu ein barn gyfunol ar y prif risgiau a phryderon sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru; gwasanaethau gofal iechyd unigol neu sefydliadau GIG unigol trwy rannu pryderon a risgiau penodol yn briodol ac yn amserol;
- ymateb yn gyfrifol ac yn gymesur i bryderon a risgiau penodol trwy gymryd camau gweithredu wedi'u cydlynu, lle mae hyn yn briodol;
- gwneud y defnydd gorau o wybodaeth 'feddal' a thystiolaeth 'galed' i hysbysu ein hasesiad cyffredinol o wasanaethau iechyd wedi'u cynllunio a'u darparu gan GIG Cymru; a
- gwella ein gallu i roi sicrwydd cryf ac effeithiol i'r cyhoedd a sbarduno gwelliant trwy rannu a chyfeirio pryderon a risgiau yn amserol.

10. I gyflawni'r amcanion uchod, bydd AGIC a OGCC yn:

- pan fydd gennym ddiddordeb cyffredin, rannu risgiau neu feysydd pryder sy'n codi o'n gwaith adolygu/archwilio ar y cyfle cyntaf;
- cyfeirio pryderon neu risgiau sy'n hysbys i ni, ond lle nad oed gennym gylch gorchwyl/ awdurdod i weithredu, at y sefydliad arall, fel y gallant ystyried pa gamau, os o gwbl, sydd angen iddynt eu cymryd. Lle bo briodol, cyd-ystyried pryderon neu risgiau a adnabyddir, ond heb fod yn amodol ar adolygiad neu ymchwiliad manwl i sefydlu a chytuno ar gamau gweithredu dilynol addas, gan gynnwys uwch gyfeirio at eraill lle mae hyn yn briodol; a
- cyfrannu'n weithredol a chymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau cydweithredol sydd wedi'u dylunio i rannu deallusrwydd, gwybodaeth a hyrwyddo arloesi ac arfer nodedig o fewn y GIG yng Nghymru.

**Rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd**

11. Mae AGIC ac OGCC yn cydnabod ac yn cytuno y bydd unrhyw benderfyniad, yn y bon, i rannu gwybodaeth yn cael ei farnu ar sail achos ar achos ac y bydd yn amodol i gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE, y Ddeddf Diogelu Data 2018 a chodau ymarfer perthnasol, nodiadau canllaw a chytundebau rhannu

gwybodaeth a rhannu data.

12. Bydd AGIC a OGCC yn rhannu gwybodaeth a deallusrwydd, yn ogystal â chasglu dealltwriaeth ac arbenigedd, fel bo'n briodol ac yn angenrheidiol, a phan fydd yn deg ac yn gyfreithiol gwneud hynny. Bydd Protocol Rhannu gwybodaeth ar wahân yn cael ei ystyried os oes angen.

13. Bydd AGIC ac OGCC yn ymgynghori â'r parti arall wrth ystyried unrhyw ddatgelu gwybodaeth a dderbynnir gan y parti hwnnw, er enghraifft, mewn ymateb i geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## Atodiad B – Manylion Cyswllt

| | |
|---|---|
| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**<br><br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Parc Busnes Rhydycar<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>Rhif ffôn: 0300 062 8163<br><br>www.AGIC.org.uk | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**<br><br>1 Ffordd yr Hen Gae<br>Pencoed<br>Pen y Bont-ar-ogwr<br>CF35 5LJ<br><br>Rhif ffôn: 0300 790 0203<br><br>https://www.ombwdsmon.cymru/ |

Bydd cysylltiadau wedi'u henwi rhwng AGIC a'r Asiantaeth, fel a ganlyn:

| **Prif Weithredwyr** | |
|---|---|
| **Dr Kate Chamberlain**<br>*Prif Weithredwr*<br>**kate.chamberlain@gov.wales** | **Nick Bennett**<br>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru<br>nick.bennett@ombudsman.wales. |

| **Rheolwyr y MoU** | |
|---|---|
| **Joseph Wilton**<br>*Pennaeth Partneriaethau, Deallusrwydd a Methodoleg*<br>joseph.wilton@gov.wales<br>Tel: 0300 025 2663 | **Geraint Jones**<br>*Rheolwr Ymchwilio Cynorthwyol*<br>Geraint.Jones@ombudsman.wales<br>Tel: 01656 641185 |